OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 Rhif 783 (Cy.84)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Diwygio) (Cymru) 2002

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud - -* | *21 Mawrth 2002* |
| *Yn dod i rym - -* | *1af Ebrill 2002* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 13, 105 a 106 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(**1**).

**Enwi, cychwyn, a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Diwygio) (Cymru) 2002 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2002.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i awdurdodau lleol yng Nghymru.

**Diwygio Rheoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2001**

**2.**—(1) Diwygir Atodlen 1 (Swyddogaethau nad ydynt i fod yn gyfrifoldeb i weithrediaeth awdurdod) i Reoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2001(**2**) fel a ganlyn.

(2) Ychwanegir at ddiwedd paragraff 14 yn Rhan I (Swyddogaethau amrywiol) yng ngholofn (1)

"ac i benderfynu'r amodau a thelerau yn amodol i'r rheini y daliant eu swydd (gan gynnwys gweithdrefnau i'w diswyddo)."

(3) Yn Rhan I (Swyddogaethau amrywiol) ar y diwedd, ychwanegir:

(a) yng ngholofn (1):

"**17.** Y pŵ er i wneud gorchymyn sy'n enwi lle yn fan cyhoeddus dynodedig at ddibenion pwerau'r heddlu mewn perthynas ag yfed alcohol.";

(b) yng ngholofn (2):

(**1**) 2000 p.22.
(**2**) O.S. 2001/2291 (Cy.179).

| |
|---|
| "adran 13(2) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001 (p.16)."(**3**); |

(c) yng ngholofn (1):

"**18.** Y pŵer i gymeradwyo Cynlluniau Strategol Partneriaethau Pobl Ifanc; a"

(ch) yng ngholofn (2):

| |
|---|
| "Adrannau 123, 124 a 125 o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000"(**4**); |

(d) yng ngholofn (1):

"**19.** Y pŵer i gymeradwyo Partneriaeth Fframwaith Plant a Phobl Ifanc."; ac

(dd) yng ngholofn (2):

| |
|---|
| "adrannau 123, 124 a 125 o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000". |

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**5**)

*D. Elis-Thomas*

21 Mawrth 2002 — Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**3**) 2001 p.16.
(**4**) 2000 p.21.
(**5**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rhan II o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn darparu i swyddogaethau awdurdod lleol gael eu cyflawni gan weithrediaeth i'r awdurdod (sy'n gorfod bod ar un o'r ffurfiau a bennir yn adran 11(2) i (5) o'r Ddeddf) onid yw'r swyddogaethau hynny wedi'u pennu yn swyddogaethau nad ydynt yn gyfrifoldeb i weithrediaeth yr awdurdod.

Pennodd Rheoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2001 ("Rheoliadau 2001") nifer o swyddogaethau nad ydynt i fod yn gyfrifoldeb i weithrediaeth awdurdod neu sydd i fod yn gyfrifoldeb i weithrediaeth o'r fath i raddau cyfyngedig neu o dan amgylchiadau penodedig yn unig. Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu swyddogaeth ychwanegol yn un nad yw i fod yn gyfrifoldeb i weithrediaeth.

Mae Rheoliad 2 yn gwneud diwygiad i Atodlen 1 i Reoliadau 2001. Ceir geiriau ychwanegol (ym mharagraff 14) ynglŷn â phenodi staff er mwyn ei gwneud yn eglur nad cyfrifoldeb gweithrediaeth i awdurdod lleol fydd penderfynu amodau a thelerau (gan gynnwys gweithdrefnau diswyddo). Mae'r diwygiad yn mewnosod cyfeiriad at adran 13 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001. Mae'r diwygiad hwn yn golygu bod y pŵer i wneud Gorchymyn sy'n enwi lle yn fan cyhoeddus dynodedig at ddibenion pwerau'r heddlu mewn perthynas ag adran 13(2) yn un y mae'r rhaid iddo beidio â chael ei arfer gan weithrediaeth i awdurdod lleol. Mae i'r diwygiad hefyd yr un effaith mewn perthynas â phwerau i gymeradwyo Cynlluniau Strategol Partneriaethau Pobl Ifanc a Phartneriaethau Fframwaith Plant a Phobl Ifanc o dan adrannau 123 i 125 o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000.